

RICHARD HUMPHREYS



ELIZABETH HUMPHREYS

# HUGH HUGHES YN ENNILL EI LE

**Gan DEWI WILLIAMS**

**YN YSTOD yr haf arddangosir rhai o bortreadau meistrolgar yr arlunydd Hugh Hughes mewn arddangosfa deithiol a drefnwyd ar y cyd gan y Llyfrgell Genedlaethol a Peter Lord ar ran Gweled. Bydd yr arddangosfa i'w gweld yn oriel Gregynog y Llyfrgell o'r 14eg o fis Gorffennaf ac yn rhai o orielau eraill Cymru rhwng Hydref y flwyddyn hon ac Ebrill 1991. Credaf fod yr enghreifftiau a welir uchod o waith yr arlunydd yn rhoi amgyffred teg o'i dalent.**

**Gwrthrychau'r ddau bortread yw Richard Humphreys (1798-1885) a'i wraig Elizabeth (1813-81). Trigent ym Mhlas Llanfaglan ger Caernarfon, un o ffermydd mwyaf stad Glynllifon. Yr oedd Richard Humphreys yn nodweddiadol o'r haenen uchaf ymhlith tenantiaid yr ystadau: yn flaengar ei hwsmonaeth, adeiladodd ffos dair milltir er mwyn cysylltu afon Gwyrfai gyda'r borfa gras ar lan y Fenai.**

**Yn ôl William Hobley, bu'n flaenllaw yn sefydlu achos Penygraig, Llanfaglan, a hawdd yw dychmygu'r edrychiad urddasol yn gweddu'n berffaith i'r sêt fawr yng nghapel Siloam y Bontnewydd lle yr oedd yn flaenor.**

**Fel y gellid disgwyl, Rhyddfrydol oedd gogwyddiad gwleidyddol Richard Humphreys a phrofodd yn gymorth mewn cyfyngder i'w gefnder John Owen, Ty'n Llwyn, pan ddioddefodd ddialedd ei feistr tir. Yr oedd John Owen yn denant ar stad y Faenol ac yn groes i ewyllys Assheton-Smith, ni phleidleisiodd o blaid Douglas Pennant y Penrhyn yn etholiad 1868.**


**Trowyd John Owen allan ond eiriolodd Richard Humphreys ar ei ran gyda'r Arglwydd Newborough a'r canlyniad fu i John Owen dderbyn tenantiaeth un o ffermydd Glynllifon.**

**Yr oedd Elizabeth yn ail wraig i Richard Humphreys ac o graffu yn fanwl ar y darlun gellir gweld ei dwy fodrwy. Ganwyd pump o blant iddynt ac yn ôl Mr F. Humphreys Jones o Gaernarfon, gor-ŵyr i Richard Humphreys, fe'i portreadwyd hwythau yn ogystal. Y mae campweithiau Hugh Hughes bellach ym meddiant merch i Mr. Humphreys Jones; yr wyf yn ddiolchgar iawn iddo am y wybodaeth parthed ei hynafiaid.**

# COFIO MARY WATKINS

## Ond nid ei phen blaen

MAE'N ANODD, ac yn aml yn amhosibl, olrhain tarddiad ambell i ddywediad neu ebychiad. Yn Llŷn ac Eifionydd yn unig, fel enghraifft, ceir ebychiad rhyfedd. Rhywun wedi dod i ben ei dennyn wrth geisio cyflawni rhyw orchwyl a'r cyfan wedi mynd i'r wal yn tynnu'r sylwadaeth: 'Wel, twll din Meri Watcin.' Pam 'Meri Watcin', a phwy oedd hi os oedd hi'n rhywun?



Yr unig eglurhad credadwy sydd ar gael yw mai cyfeiriad at enw llong oedd yma. Ac yn wir yn Nefyn yn 1850 fe adeiladodd Owen Jones long o dderw iddo'i hun, ei chofrestru ym Mhwllheli a'i henw yn Mary Watkins. O bosibl y capten cyntaf, John Williams, a roddodd enw y rhieni ar y llong — yr oedd ef yn fab i Watkin a Mary Williams, Tŷ Gwyn, Portinllaen ac enw'r llong yn gyfuniad o enw ei fam a'i dad.

Yr oedd John Williams o'r un teulu â theulu Watkin Williams, Pwll Parc, Edern, ac fe ddaeth yn berchennog yn ogystal â chapten y llong.

Ar wahân i hwylio'r arfordir byddai'r llong yn hwylio i'r Môr Canoldir ac yn masnachu'n gyson â phorthladdoedd Môr y Baltig. Ac yn ystod rhyfel y Crimea bu'n cyflenwi'r fyddin yn y Crimea. Yn gyffredin, y cargo fyddai llechi o Borthmadog, ac fe'i gwerthwyd i Capten Morgan Jones, Porthmadog yn 1873.

Ond o'i dyddiau cyntaf ni bu'r Mary Watkins yn sgwner hylaw a hawdd ei hwylio. Yn wreiddiol yr oedd yn 72 troedfedd o hyd, 20.2 troedfedd o led a deuddeg troedfedd o ddyfn. Ond yn 1865-66 fe'i helaethwyd nes oedd yn 91 troedfedd o hyd ac yn cario can tunnell yn ychwanegol.

Ymddengys i hyn oll wneud y llong yn fwy anhydrin byth ac o 1875 ymlaen bu galw am atgyweiriadau cyson iddi. Yn wir collodd ei gradd A1 a bu'n rhaid ei hadnewyddu'n helaeth unwaith eto cyn iddi adennill ei thystysgrif yn 1886. Ond ddwy flynedd yn ddiweddarach aeth yn llongddrylliad ar draethau Portiwgal.

Mae hanes cyflawn holl fordeithiau'r llong rhwng Chwefror 1859 a Mai 1861 ar gael. Cyflog y capten yn y cyfnod oedd chwe phunt y mis, gyda'r mêt yn ennill tair punt a phymtheg swllt y mis a'r morwyr ddwy bunt a phymtheg swllt y mis.

A'r gred yw mai cyfeiriad at broblemau ac anffodion y llong anhydrin yma a ysbrydolodd y cyfeiriad ebychiadol ati — ond nid at ei phen-blaen — yn Llŷn ac Eifionydd.